CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

2026

Tir na n-Og
GWOBRAU • AWARDS

Gwobrau Tir na n-Og ar gyfer Llyfrau i Blant Cymru

# Canllawiau Ymgeisio

# Dyddiad cau'r ceisiadau: dydd Llun, 24 Tachwedd 2025*

(*Dylid cyflwyno llyfrau a gyhoeddwyd rhwng 24 Tachwedd – 31 Rhagfyr 2025 erbyn dydd Gwener, 12 Rhagfyr 2025)

Gwobrau Llyfrau Plant Tir na n-Og yw'r gwobrau llyfrau plant hynaf a mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd ym 1976 ac mae'r gwobrau'n cydnabod ac yn dathlu'r awduron a'r darlunwyr mwyaf creadigol a'r deunyddiau darllen gorau i blant.

Mae'r gwobrau wedi'u hennill gan rai o'n prif awduron a darlunwyr gan gynnwys Manon Steffan Ros, Jac Jones, Gareth F Williams, Catherine Fisher a Jackie Morris.

Dyfernir tair gwobr o £1,000 yn flynyddol i'r enillydd cyffredinol ym mhob un o'r tri chategori. Noddir y gwobrau gan CILIP Cymru Wales (Sefydliad Siartredig Llyfrgellwyr a Gweithwyr Gwybodaeth Proffesiynol) a Chyngor Llyfrau Cymru.

## Categorïau

- Llyfrau Cymraeg ar gyfer oedran ysgol gynradd (4–11)
- Llyfrau Cymraeg ar gyfer oedran ysgol uwchradd (11–18)
- Llyfrau Saesneg ar gyfer plant oed cynradd ac uwchradd (4–18) gyda chefndir Cymreig dilys.

## Gwobrwyo a Hyrwyddo

- Dyfernir £1,000 i awdur buddugol pob categori, i'w rannu gyda'r darlunydd os yw'r llyfr wedi'i ddarlunio.
- Pan fydd llyfr arobryn â nifer o awduron/darlunwyr, gall y wobr fynd i'r golygydd.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn hyrwyddo'r Gwobrau trwy gynhyrchu deunydd hyrwyddo ar gyfer siopau llyfrau a llyfrgelloedd, a thrwy ddosbarthu adnoddau cysgodi i ysgolion yng Nghymru. Cefnogir y Gwobrau hefyd trwy ymgyrch gref yn y maes cysylltiadau cyhoeddus a marchnata digidol.

Gwahoddir enillwyr y categorïau i fynd ar daith o gwmpas ysgolion a llyfrgelloedd yng Nghymru, ac fe gydlynir hyn oll gan Gyngor Llyfrau Cymru.

## Y Cynllun Cysgodi

Bydd plant yn gallu cymryd rhan yn y Cynllun Cysgodi sy'n agored i ysgolion ar hyd a lled Cymru. Bydd disgyblion yn y Cynllun Cysgodi yn gallu dewis eu hoff lyfrau o'r rhestr fer, yn annibynnol i lyfrau buddugol y beirniaid.

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn prynu setiau o'r llyfrau ar y rhestr fer i ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Cysgodi. Cytunir ar delerau disgownt ymlaen llaw gyda'r cyhoeddwyr ar y rhestr fer.

## Amserlen

| | |
|---|---|
| 16 Medi 2025 | – yn agor i geisiadau |
| 24 Tachwedd 2025 | – yn cau i geisiadau |
| Gwanwyn 2026 | – yn cyhoeddi'r rhestrau byr + yn lansio'r ymgyrch manwerthu a'r cynllun cysgodi |
| Haf 2026 | – yn cyhoeddi'r enillwyr |

## Meini Prawf Cymhwyster

Gall cyhoeddwyr gyflwyno cynifer o lyfrau cymwys ag y dymunant

- Llyfrau Cymraeg ar gyfer oedran ysgol gynradd (4 – 11)
- Llyfrau Cymraeg ar gyfer oedran ysgol uwchradd (11 – 18)
- Llyfrau Saesneg ar gyfer plant oed cynradd ac uwchradd (4 – 18) gyda chefndir Cymreig dilys.

**Diffiniad o gefndir Cymreig dilys:** Teitlau â chynnwys sy'n amlwg yn berthnasol i Gymru o ran, er enghraifft, lleoliad, treftadaeth neu ddiwylliant. Nid yw preswyliad na dinasyddiaeth yr awdur yn berthnasol yn yr achos hwn.

- Mae angen i deitlau cymwys fod wedi'u cyhoeddi gyntaf rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2025.
- Mae barddoniaeth, ffuglen, gweithiau ffeithiol, blodeugerddi a llyfrau lluniau i gyd yn gymwys.
- Mae llyfrau gwreiddiol a gyhoeddir yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gymwys.
- Mae fformatau newydd yn gymwys os rhoddir ISBN gwahanol i'r deunydd.
- Nid yw llyfrau lliwio, pecynnau addysgol na gwerslyfrau'n gymwys.
- Nid yw ailargraffiadau nac ail rifynnau'n gymwys.
- Nid yw cyfieithiadau'n gymwys, oni bai eu bod wedi eu haddasu gan yr awdur gwreiddiol.
- Ni fydd llyfrau'n gymwys mewn categori lle mae'r awduron (neu aelod o'u teulu agos) yn aelod o banel beirniadu'r categori. Bydd llyfrau yn gymwys os yw'r awduron (neu aelod o'u teulu agos) yn aelod o banel beirniadu ar wahân.
- Nid yw llyfrau a gyhoeddir ar-lein yn unig, yn gymwys.
- Rhaid i'r awdur fod yn fyw pan gyflwynir y llyfr.

# Amodau a Thelerau

Sicrhewch eich bod wedi darllen yr Amodau a'r Telerau yn ofalus iawn gan y byddant yn cael eu gorfodi. Bydd cymhwysedd yn cael ei wirio'n ofalus.

Ar gyfer pob ymholiad, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chymhwyster neu gyflwyniadau hwyr, cysylltwch â Chyngor Llyfrau Cymru.

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar ffurf copi caled a thrwy e-bost.
Anfonwch **bum copi am ddim** o bob teitl a gyflwynir, ynghyd â Ffurflen Gais wedi'i chwblhau, cyn 24 Tachwedd 2025, i:

Gwobrau Tir na n-Og,
Cyngor Llyfrau Cymru,
Castell Brychan,
Aberystwyth,
Ceredigion
SY23 2JB
Rhif Ffôn: 01970 624151

E-bost: cllc.plant@llyfrau.cymru

- Fel un o amodau'r gystadleuaeth, mae'n rhaid i gyhoeddwyr ac awduron yr holl lyfrau ar y rhestr fer a'r rhai buddugol, gydweithredu â Chyngor Llyfrau Cymru wrth hysbysebu a hyrwyddo Gwobrau Tir na n-Og.

- Bydd gofyn hefyd i awduron buddugol gydweithredu â'r cyfryngau yn syth ar ôl y cyhoeddiad ac wedi hynny.

- Disgwylir i gyhoeddwyr ar y rhestr fer ddarparu copïau o'r llyfr am swm gostyngol ar gyfer Cynllun Cysgodi'r Wobr gyda'r disgownt i'w gytuno â'r Cyngor Llyfrau ymlaen llaw.

- Disgwylir i gyhoeddwyr y teitlau ar y rhestr fer sicrhau bod y teitlau mewn print o'r dyddiad y caiff y rhestr fer ei rhyddhau hyd nes y cyhoeddir yr enillwyr.

- Disgwylir i gyhoeddwyr ar y rhestr fer gyflenwi'r canlynol:
  - delwedd eglur iawn o glawr y llyfr (gan gynnwys unrhyw gredydau perthnasol)
  - llun eglur iawn o'r awdur (gan gynnwys unrhyw gredydau perthnasol)
  - disgrifiad byr o'r llyfr
  - bywgraffiad byr o'r awdur a manylion cyswllt

- Bydd angen i bob cyhoeddwr ddarparu 5 copi gratis ychwanegol o'u llyfrau **ar y rhestr fer** at ddibenion cyhoeddusrwydd.

- O bosib bydd angen i bob cyhoeddwr ddarparu 5 copi gratis ychwanegol o **bob llyfr buddugol** at ddibenion cyhoeddusrwydd. Nid oes modd dychwelyd y llyfrau a gyflenwir.

- Disgwylir i gyhoeddwyr grybwyll y wobr yn eu broliannau pe bai'r gyfrol arobryn yn cael ei hailargraffu; byddai hefyd yn ddymunol i gyhoeddwyr gynnwys y geiriau canlynol ar unrhyw weithiau newydd a gyhoeddir gan gyn-enillwyr: "...Enillydd Gwobrau Tir na n-Og... ".

- Rhaid i gyhoeddwyr yr holl lyfrau ar y rhestr fer a'r llyfrau buddugol ymdrechu i ddefnyddio unrhyw waith celf a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru i hyrwyddo llwyddiant a gwerthiant y teitlau, a'i ddefnyddio at y diben hwnnw ar gyfer llyfrau ym mhob fformat gan gynnwys fformat electronig.

- Wrth i gyhoeddwr gyflwyno gwaith yr awdur, fe dybir bod yr awdur wedi cytuno i'w waith gael ei ystyried.

- Gall feirniaid ystyried unrhyw lyfr na chafodd ei gyflwyno, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r cymwysterau a nodwyd yn y rheolau hyn, ac yn ddarostyngedig i gytundeb y cyhoeddwr (a chytundeb tybiedig yr awdur/awduron) i gyflwyno copïau ar gais.

- Rhaid i bob awdur a darlunydd ar y rhestr fer wneud eu gorau glas i fynychu'r seremonïau cyflwyno yn ystod haf 2026. Os oes unrhyw broblem ynghylch argaeledd yr awdur, rhaid rhoi gwybod i Gyngor Llyfrau Cymru ar unwaith. Bydd gwybodaeth bellach i ddilyn.

- Mae penderfyniadau'r beirniaid yn derfynol. Ni chaniateir unrhyw drafodaeth na gohebiaeth ynglŷn ag unrhyw benderfyniad.

- Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i naill ai gynnwys neu wrthod unrhyw gais am unrhyw reswm yr ystyria'n gyfiawnadwy, ac mae'n cadw'r hawl i amrywio'r Rheolau a'r Amodau Ymgeisio ac i newid y rhaglen gyhoeddedig, os bernir bod angen gwneud hynny i sicrhau gweinyddiaeth briodol ac uniondeb y Gwobrau, ac os bydd angen gwneud hynny am resymau y tu hwnt i reolaeth Cyngor Llyfrau Cymru. Bydd penderfyniad Cyngor Llyfrau Cymru ar y materion hyn yn derfynol ac yn rhwymol, ac ni ymgymerir ag unrhyw ohebiaeth.

## Cyngor Llyfrau Cymru

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi ac yn datblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Rydyn ni'n hyrwyddo llythrennedd a darllen er pleser trwy ystod o ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau cyhoeddus ledled Cymru, gan weithio'n aml mewn partneriaeth ag ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau llenyddol eraill. Fe'n sefydlwyd yn Aberystwyth ym 1961 ac rydyn ni'n yn gweithio gyda chyhoeddwyr i feithrin talent a deunydd newydd yn Gymraeg a Saesneg yn ogystal â chynnig gwasanaethau golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu arbenigol. Rydyn ni hefyd yn gweinyddu grantiau i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr annibynnol. Daw ein cyllid yn rhannol o Lywodraeth Cymru ac yn rhannol o weithrediadau masnachol ein busnes dosbarthu llyfrau a chyfanwerthu.

Os hoffech chi ragor o wybodaeth am Wobrau Tir na n-Og, ewch i llyfrau.cymru

## Ffurflen Gais

| | |
|---|---|
| Cyhoeddwr | |
| Enw Cyswllt | |
| Cyfeiriad E-bost | |
| Rhif Ffôn | |

| Teitl | Awdur | Dyddiad Cyhoeddi | ISBN |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Rwy'n cadarnhau bod** y teitl(au) uchod yn cydymffurfio â Meini Prawf Cymhwyster Gwobrau Tir na n-Og ar gyfer Llyfrau i Blant Cymru, a fy mod wedi darllen a chytuno â'r Amodau a'r Telerau. Os ydw i ar y rhestr fer, rwy'n rhoi caniatâd i Gyngor Llyfrau Cymru ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau marchnata a gyflwynir (delweddau o gloriau llyfrau, a lluniau'r awduron ynghyd â'u bywgraffiadau a gwybodaeth amdanynt) at ddibenion hyrwyddo Gwobrau Tir na n-Og ar gyfer Llyfrau i Blant Cymru.

Enw: ______________________________

Llofnod: ______________________________

Dyddiad: ______________________________